CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2915 (Cy.254)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion yng Nghymru yn unig. Mae'n dirymu ac yn disodoli Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 1997 (fel y'i diwygiwyd). Mae'n pennu'r trefniadau asesu ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg (fel iaith gyntaf), Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ym mlwyddyn olaf cyfnod allweddol 2.

Mae erthygl 2 yn dirymu Gorchymyn 1997 (fel y'i diwygiwyd).

Mae erthygl 3 yn cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Gorchymyn.

Mae erthygl 4 yn darparu i ddisgyblion gael eu hasesu gan athro ac mae'n gosod diben y gwaith asesu hwnnw.

Mae erthygl 5 yn gosod y rheolau technegol ar gyfer penderfynu lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn ôl pwnc.

Mae erthygl 6 yn gosod rheolau arbennig sy'n gymwys mewn perthynas â disgyblion nad ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (gan gynnwys disgyblion â datganiad anghenion addysgol arbennig).

Mae erthygl 7 yn ei gwneud yn ofynnol i wneud trefniadau i werthuso'r trefniadau asesu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2915 (W.254)

# EDUCATION, WALES

## The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, which applies only to schools in Wales, revokes and replaces the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 2) (Wales) Order 1997 (as amended). It specifies the assessment arrangements for pupils studying English, Welsh (as a first language), mathematics and science in the final year of the second key stage.

Article 2 revokes the 1997 Order (as amended).

Article 3 contains definitions of terms used in the Order.

Article 4 provides for pupils to be assessed by a teacher and sets out the purpose as such assessment.

Article 5 sets out the technical rules for determining a pupil's levels of attainment subject by subject.

Article 6 sets out special rules which apply in relation to pupils who are not subject to provisions of the National Curriculum (including pupils with statements of special educational needs).

Article 7 requires arrangements to be made for the evaluation of the assessment arrangements.

Mae erthygl 8 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud darpariaeth sy'n rhoi effaith i'r darpariaethau a wneir gan y Gorchymyn hwn neu i wneud darpariaeth sy'n ychwanegu mewn ffordd arall at y darpariaethau hynny.

Yr unig newid sywleddol a wna'r Gorchymyn hwn yw nad yw bellach yn gwneud darpariaeth ar gyfer profion disgyblion. Yn unol â hynny, nid ailddeddfir erthyglau 5 a 6 o Orchymyn 1997.

Article 8 enables the National Assembly to make provision giving effect to or otherwise supplementing the provisions made by the Order.

The only changes of substance made by the current Order is that it no longer makes provision for pupil tests. Accordingly, articles 5 and 6 of the 1997 Order are not re-enacted.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2915 (Cy.254)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *9 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | *10 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) ac (11) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**a**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 10 Tachwedd 2004.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau disgyblion sydd ym mlwyddyn olaf yr ail gyfnod allweddol a hynny yn y pynciau Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig.

(4) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau disgyblion yn y Gymraeg os yw'r disgyblion hynny yn dilyn y rhaglen astudio o'r enw "Cymraeg Ail Iaith"(**b**).

**Dirymu**

**2**. Dirymir Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 1997(**c**) a Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar

(a) 2002 p.32.

(b) *Gweler* O.S. 2000/1101 (Cy.79) a'r ddogfen a gyhoeddwyd o dan y teitl "Cymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru", ISBN 0750424036.

(c) O.S. 1997/2009.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2915 (W.254)

# EDUCATION, WALES

## The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 November 2004* |
| *Coming into force* | *10 November 2004* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by sections 108(3)(c), (7), (8), (9), (10) and (11) and 210(7) of the Education Act 2002(**a**).

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) This Order is called the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 and comes into force on 10 November 2004.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4), the provisions of this Order apply for the purpose of ascertaining the achievements in English, Welsh, mathematics and science of pupils who are in the final year of the second key stage.

(3) This Order applies only to maintained schools in Wales.

(4) This Order does not apply for the purpose of ascertaining the achievements in Welsh of pupils following the programme of study known as "Welsh Second Language"(**b**).

**Revocation**

**2**. The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 2) (Wales) Order 1997(**c**) and the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English,

(a) 2002 c.32.

(b) *See* S.I. 2000/1101 (W.79) and the document entitled "Welsh in the National Curriculum", ISBN 0750424036.

(c) S.I. 1997/2009.

gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) (Diwygio) 1998(**a**).

**Dehongli**

**3**.-(1)Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "a bennir" ("*specified*") yw pennu mewn perthynas â'r ail gyfnod allweddol gan orchymyn adran 108(3)(a) a (b);

ystyr "yr Awdurdod" ("*the Authority*") yw'r awdurdod o'r enw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru(**b**);

mae i "blwyddyn ysgol" yr ystyr a roddir i "*school year*" yn adran 97 o'r Ddeddf ;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "y dogfennau cysylltiedig" ("*the associated documents*") yw'r dogfennau a gyhoeddir gan yr Awdurod ac sy'n gosod unrhyw lefelau cyrhaeddiad, targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol, ac sy'n effeithiol yn rhinwedd y gorchymynion adran 108(3)(a) a (b) ar gyfer y pynciau hynny ac sydd mewn grym am y tro(**c**);

ystyr "gorchmynion adran 108(3)(a) a (b)" ("*section 108(a) and (b) orders*") yw gorchmynion a wneir, neu sydd â'r un effaith â phetaent wedi'u gwneud, o dan adran 108(3)(a) a (b) o'r Ddeddf ac sy'n pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio;

ystyr "y pynciau perthnasol" ("*the relevant subjects*") yw Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth;

ystyr "TC" ("*AT*") yw targed cyrhaeddiad;

ystyr "tymor yr haf" ("*summer term*") yw'r tymor olaf mewn blwyddyn ysgol; ac

mae i "ysgol a gynhelir" yr ysytyr a roddir i "*maintained school*" yn adran 97 o'r Ddeddf.

(a) O.S. 1998/1977.

(b) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd i fodoli o dan adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 a chafodd ei enw presennol gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997 (p.44).

(c) Y Gorchmynion perthnasol ar gyfer yr ail gyfnod allweddol yw O.S. 2000/1101 (Cy.79) (Cymraeg), O.S. 2000/1154 (Cy. 85) (Saesneg), O.S. 2000/1100 (Cy.78) (Mathemateg) ac O.S. 2000/1099 (Cy.77) (Gwyddoniaeth).

Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 2) (Wales) (Amendment) Order 1998(**a**) are revoked.

**Interpretation**

**3**.-(1) In this Order-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Education Act 2002;

"the associated documents" ("*y dogfennau cysylltiedig*") means the documents published by the Authority setting out any levels of attainment, attainment targets and programmes of study in relation to the relevant subjects, which documents have effect by virtue of the respective section 108(3)(a) and (b) orders for those subjects for the time being in force(**b**);

"AT" ("*TC*") means attainment target;

"the Authority" ("*yr Awdurdod*") means the authority known as the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(**c**);

"maintained school" ("*ysgol a gynhelir*") has the meaning given to it by section 97 of the Act;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"the relevant subjects" ("*y pynciau perthnasol*") means English, Welsh, mathematics and science;

"school year" ("*blwyddyn ysgol*") has the meaning given to it by section 97 of the Act;

"section 108(3)(a) and (b) orders" ("*gorchmynion adran 108(3)(a) a (b)*") means orders made, or which have effect as if they were made, under section 108(3)(a) and (b) of the Act specifying attainment targets and programmes of study;

"specified" ("*a bennir*") means specified in relation to the second key stage by a section 108(3)(a) and (b) order;

"summer term" ("*tymor yr haf*") means the final term in a school year.

(a) S.I. 1998/1977.

(b) The relevant Orders for the second key stage are S.I. 2000/1154 (W.85) (English), S.I. 2000/1101 (W.79) (Welsh), S.I. 2000/1100 (W.78) (Mathematics) and S.I. 2000/1099 (W.77) (Science).

(c) The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales was established by section 14(1)(b) of the Education Reform Act 1988 (c.40), continued in existence by section 360 of the Education Act 1996 and given its current name by section 27(1) of the Education Act 1997 (c.44).

(2) Mae cyfeiriadau at-

(a) yr ail gyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103 o'r Ddeddf; a

(b) lefelau cyrhaeddiad, targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio yn gyfeiriadau at y lefelau, y targedau a'r rhaglenni a osodir yn y dogfennau cysylltiedig.

(3) Os nad yw unrhyw rif cyfartalog y mae'n ofynnol ei benderfynu drwy'r Gorchymyn hwn yn rhif cyfan, rhaid ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf, gan dalgrynnu'r ffracsiwn un hanner i fyny i'r rhif cyfan nesaf.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl yn y Gorchymyn hwn sy'n dwyn y rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn yr erthygl y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddi.

**Asesu gan athrawon**

**4**.-(1) Rhaid i'r pennaeth drefnu i bob disgybl gael ei asesu gan athro ym mhob pwnc perthnasol yn ystod tymor yr haf (ac eithrio'r pythefnos olaf ohono) yn unol â darpariaethau'r erthygl hon a threfnu i'r athro gofnodi'r canlyniadau.

(2) Diben yr asesu yw canfod y lefel cyrhaeddiad a gyflawnodd y disgybl ym mhob TC a bennir ar gyfer pob pwnc perthnasol sy'n gymwys i'r disgybl ac, ac eithrio pan fydd erthygl 6(3) yn gymwys, yn y pwnc fel a gyfrifir yn unol ag erthygl 5.

(3) Rhaid i'r disgybl gael ei asesu a rhaid i'r athro gofnodi'r canlyniadau ddim hwyrach na phythefnos cyn diwedd tymor yr haf.

(4) Datganiad o bob lefel cyrhaeddiad y mae'r disgybl wedi'i chyflawni (p'un a bennir y lefel honno mewn perthynas â'r ail gyfnod allweddol gan y gorchymyn adran 108(3)(a) a (b) perthnasol ai peidio) mewn perthynas â phob TC a grybwyllir ym mharagraff (2) ac, ac eithrio pan fydd erthygl 6(3) yn gymwys, o'i lefel yn y pwnc fel a gyfrifir yn unol ag erthygl 5 fydd y cofnod o'r canlyniadau.

(5) Wrth asesu disgybl yn unol â'r erthygl hon caiff athro ystyried canlyniadau unrhyw asesiad blaenorol o'r disgybl (p'un a wnaed ef gan yr athro hwnnnw ai peidio).

**Penderfynu cyrhaeddiad yn ôl pwnc: asesu gan athrawon**

**5**.-(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 6, mae darpariaethau'r erthygl hon yn rheoleiddio agregiad lefelau cyrhaeddiad TC sy'n cael eu penderfynu yn unol ag erthygl 4 er mwyn cyfrifo lefelau cyrhaeddiad mewn pynciau.

(2) References to-

(a) the second key stage are to be construed in accordance with section 103 of the Act; and

(b) levels of attainment, attainment targets and programmes of study are to the levels, targets and programmes set out in the associated documents.

(3) Where any average number required to be determined by this Order is not a whole number, it is to be rounded to the nearest whole number, the fraction of one half being rounded upwards to the next whole number.

(4) In this Order unless the context otherwise requires any reference to a numbered article is a reference to the article in this Order so numbered and any reference to a numbered paragraph is a reference to the paragraph so numbered in the article in which the reference appears.

**Teacher assessment**

**4**.-(1) The head teacher must make arrangements for each pupil to be assessed by a teacher in each relevant subject during the summer term (except the last two weeks thereof) in accordance with the provisions of this article and for a record of the results to be made by that teacher.

(2) The purpose of the assessment is to determine the level of attainment achieved by the pupil in each AT specified for each relevant subject which applies to the pupil and, except where article 6(3) applies, in the subject as calculated in accordance with article 5.

(3) The pupil must be assessed and a record of the results made by the teacher not later than two weeks before the end of the summer term.

(4) The record of the results is to consist of a statement of each level of attainment achieved by the pupil (whether or not that level is specified in relation to the second key stage by the relevant section 108(3)(a) and (b) order) in relation to every AT mentioned in paragraph (2) and, except where article 6(3) applies, of his or her level in the subject as calculated in accordance with article 5.

(5) In making an assessment of a pupil pursuant to this article a teacher may take into account results of any previous assessment of the pupil (whether or not made by that teacher).

**Determination of attainment by subject: teacher assessment**

**5**.-(1) Subject to article 6, the provisions of this article regulate the aggregation of AT levels of attainment determined in accordance with article 4 to calculate subject levels of attainment.

(2) Yn achos Saesneg, lefel cyrhaeddiad disgybl yn y pwnc yw cyfartaledd ei lefelau ym mhob TC.

(3) Yn achos Cymraeg, lefel cyrhaeddiad disgybl yn y pwnc yw cyfartaledd ei lefelau ym mhob TC, wedi'i phwysoli â'r ffactorau a ganlyn-

TC1 (llafar) 4;

TC2 (darllen) 3; a

TC3 (ysgrifennu) 3.

(4) Yn achos mathemateg, lefel cyrhaeddiad disgybl yn y pwnc yw cyfartaledd lefelau'r disgybl ym mhob TC ond â'i lefel yn TC2 (rhif ac algebra) wedi'i phwysoli â ffactor o ddau.

(5) Yn achos gwyddoniaeth, lefel cyrhaeddiad disgybl yn y pwnc yw cyfartaledd lefelau'r disgybl ym mhob TC ond â'i lefel yn TC1 (ymholiad gwyddonol) wedi'i phwysoli â ffactor o ddau.

**Disgyblion nad ydynt yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol**

**6**.-(1) Mae erthygl 5 i fod yn effeithiol mewn perthynas â disgyblion nad yw darpariaethau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gymwys mewn perthynas â hwy (gan gynnwys disgyblion â datganiad anghenion addysgol arbennig) gyda'r addasiadau a bennir yn yr erthygl hon.

(2) Os, yn achos unrhyw bwnc perthansol, nad yw un TC yn gymwys i un o'r disgyblion hynny, mae erthygl 5 i fod yn effeithiol fel petai nifer y TCau sy'n gymwys i'r disgybl yn gyfanswm y TCau yn y pwnc a'r TC nad yw'n gymwys, ac unrhyw bwysoli yn gysylltiedig ag ef, yn cael ei ddiystyru.

(3) Os, yn achos unrhyw bwnc perthnasol, nad yw rhagor nag un TC yn gymwys i'r disgybl, nid yw erthygl 5 i fod yn gymwys i'r disgybl mewn perthynas â'r pwnc hwnnw ac nid oes lefel cyrhaeddiad i'w benderfynu ar ei gyfer mewn perthynas â'r pwnc hwnnw.

**Gwerthuso'r Trefniadau Asesu**

**7**. Rhaid i'r Awdurdod wneud y trefniadau y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol er mwyn penderfynu i ba raddau y mae darpariaethau erthyglau 4 i 6 a'u gweithrediad yn cyflawni'r diben a grybwyllir yn erthygl 1(2).

**Pwerau atodol y Cynulliad Cenedlaethol**

**8**. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud y darpariaethau hynny y mae'n ymddangos yn hwylus iddo eu gwneud ac sy'n rhoi effaith lawn i'r darpariaethau a wneir yn y Gorchymyn hwn (ac eithrio darpariaethau sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 108(7) o'r Ddeddf) neu sy'n ychwanegu atynt mewn ffordd arall.

(2) In the case of English, a pupil's level of attainment in the subject is the average of his or her levels in each AT.

(3) In the case of Welsh a pupil's level of attainment in the subject is the average of his or her levels in each AT, weighted by the following factors-

AT1 (oral) 4;

AT2 (reading) 3; and

AT3 (writing) 3.

(4) In the case of mathematics, a pupil's level of attainment in the subject is the average of the pupil's levels in each AT but with his or her level in AT2 (number and algebra) weighted by a factor of two.

(5) In the case of science, a pupil's level of attainment in the subject is the average of the pupil's levels in each AT but with his or her level in AT1 (scientific enquiry) weighted by a factor of two.

**Pupils not subject to provisions of the National Curriculum**

**6**.-(1) Article 5 is to have effect in relation to pupils as respects whom provisions of the National Curriculum do not apply (including pupils with statements of special educational needs) with the modifications specified in this article.

(2) Where, in the case of any relevant subject, one AT does not apply to such a pupil, article 5 is to have effect as if the number of ATs applying to the pupil were the total number of ATs in the subject, and the AT which does not apply, and any weighting in respect thereof, were ignored.

(3) Where, in the case of any relevant subject, more than one AT does not apply to such a pupil, article 5 is not to apply to the pupil in relation to that subject and no level of attainment is to be determined for him or her in respect of that subject.

**Evaluation of Assessment Arrangements**

**7**. The Authority must make such arrangements as seem to it appropriate for determining the extent to which the provisions of articles 4 to 6 and their implementation achieve the purpose mentioned in article 1(2).

**Supplementary powers of the National Assembly**

**8**. The National Assembly may make such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by this Order (other than provisions conferring or imposing functions as mentioned in section 108(7) of the Act) as appear to it to be expedient.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

9 Tachwedd 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

9 November 2004

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2915 (Cy.254)

# ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2915 (W.254)

# EDUCATION, WALES

The National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004

©© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091021-4

9 780110 910215

**£3.00**

W172/11/04 ON